

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: ar Wella Argaeledd Rhandiroedd a Gerddi Cymunedol, Gorffennaf 2014

C	Nod a Dibenion	Sylwadau
	<p>Sicrhau bod y cyflenwad o safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned, gan gynnwys rhandiroedd, yn bodloni anghenion lleol yn fwy effeithiol.</p>	<p>Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno â nod Llywodraeth Cymru ar gyfer rhandiroedd a thyfu bwyd yn y gymuned?</p> <p>Rydym yn cytuno'n gryf â'r awydd a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth o safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned yng Nghymru a chyfluoedd i wneud hyn. Fel rhan o'r fenter hon, byddai'n ddefnyddiol amlygu a chefnogi cyfluoedd o bob maint ar gyfer cynhyrchu bwyd yn y gymuned - o rhandiroedd lleol i ddatblygu mentrau amaethyddiaeth a chymdeithasol a gefnogir yn y gymuned a chadwyni cyflenwi - gan gysylltu â strategaethau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Gellir creu cysylltiadau hefyd er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth well o brosesau cynhyrchu bwyd, deiet a maeth gwell a choginio â chynnyrch ffres. Mae'r rhain yn faterion hanfodol ar gyfer agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tloedi a gwella ansawdd bywyd.</p> <p>Cwestiwn 2: Beth yw'r prif faterion a'r blaenoriaethau yng Nghymru ar gyfer gwireddu'r nod hwn?</p> <p>Dylid cynnal dadansoddiad gofodol, gan fapio tir sydd ar gael (a pherchenogaeth) yn agos at y cymunedau y mae angen cyfluoedd arnynt i dyfu fwyaf (p'un a ydynt wedi nodi hynny ai peidio), a datblygu cynigion CAMPUS er mwyn sicrhau bod cyfluoedd yn cael eu darparu lle mae ganddynt y potensial mwyaf i sicrhau buddiannau lluosog. Fel y mae'r ymgynghoriad yn cydnabod, mae angen atgyfnerthu'r sail dystiolaeth. Er bod yr adroddiad a baratowyd gan yr Arsyllfa Wledig yn ddefnyddiol, fe'i lluniwyd drwy ymgynghori â phobl sy'n tyfu bwyd yn y gymuned <i>ar hyn o bryd</i>, yn hytrach na phobl nad ydynt yn tyfu ar hyn o bryd gan nodi pam nad ydynt yn cymryd rhan. Mae angen tystiolaeth feintiol ychwanegol i gefnogi'r broses o ddatblygu strategaeth newydd sylweddol a allai effeithio ar ddeddfwriaeth.</p> <p>Mae angen rhoi cyfrifoldeb penodol am arwain a hyrwyddo'r gwaith hwn a'r cyfluoedd a gynigir i sefydliad (neu sefydliadau) sy'n bodoli eisoes ynghyd â'r targedau a'r dylanwad sy'n angenrheidiol i ysgogi camau gweithredu. Bydd gan Awdurdodau Lleol, Cynghorau Cymuned a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig</p>

		<p>rôl bwysig i'w chwarae, ochr yn ochr â sefydliadau yn y trydydd sector - ond mae angen penodi arweinwyr cyfrifol. Gan fod awdurdodau lleol yn sefydliadau lleol sydd â chyfrifoldebau cyson am gynllunio hirdymor, mae'n debygol mai hwy sydd fwyaf priodol ar gyfer y rôl hon. Bydd sicrhau digon o adnoddau ar gyfer y gwaith hwn yn yr hirdymor mewn cyfnod o gyllidebau is yn fater allweddol.</p> <p>Bydd angen i brydlesi neu gytundebau eraill a wneir yn lleol warantu buddiant hirdymor mewn safleoedd hyd y gellir.</p>
1	<p>Bod canllawiau cynhwysfawr ar hyrwyddo a chefnogi tyfu bwyd yn y gymuned yn cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid llunio canllawiau penodol i Gymru?</p> <p>Cytunwn. Bydd canllawiau penodol i Gymru yn hyrwyddo 'perchenogaeth' genedlaethol o'r gwaith, a gellir ei deilwra i gyd-destun Cymru - e.e. pwy yn union yw'r perchenogion cyhoeddus, sut i gysylltu â hwy, beth fydd ei angen arnynt, safonau ymateb a safonau gwasanaeth, cytundebau cyffredin ac ati. Fodd bynnag, dylid datblygu'r canllawiau hyn mewn partneriaeth â'r llywodraethau datganoledig ledled y DU er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar ddysgu ac arfer gorau ac er mwyn ystyried materion trawsffiniol.</p> <p>Cwestiwn 4: Pa faterion ddylai'r canllawiau eu cwmpasu?</p> <p>Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol yw'r sefydliad arweiniol ar y mater hwn ac sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor. Mae llawer o ganllawiau ar gael eisoes, a bydd angen eu casglu ynghyd i sicrhau eu bod mor benodol i'r gynulleidfa â phosibl. Mae angen i dirfeddianwyr a chymunedau sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu prosiectau tyfu gael gwybodaeth eang ond penodol, a dylid ei theilwra ar gyfer y naill a'r llall.</p> <p>Dylid cynnwys y set ddata ofodol o dir sydd ar gael a pherchenogaeth (gweler uchod) yn y canllawiau, dylai fod ar gael i'r cyhoedd a dylai fod modd ei chwilio'n rhwydd (e.e. gan ddefnyddio codau post). Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o setiau data a allai gyfrannu at y gwaith mapio hwn.</p> <p>Mae angen i'r canllawiau ateb y cwestiynau canlynol: Pwy? Beth? Pam? Ble? Pryd? A Sut? Mewn perthynas â Thyfu Bwyd yn y Gymuned, a dylai gynnwys, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Buddiannau tyfu yn y gymuned i unigolion a chymunedau • Sut i sefydlu grŵp o'r cychwyn - cyfeirio, templedi ac ati.

		<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau a rheoli adnoddau • Rolau a chyfrifoldebau • Sut i ganfod safle ac asesu ei addasrwydd - beth i'w ystyried • Cyd-drafod â pherchenogion • Dangos y posibiladau amrywiol - cynnwys pob rhan o'r gymuned (materion cydraddoldeb ac amrywiaeth), ysgolion, atgyfeiriadau meddygon teulu, problemau mynediad • Datblygu cynllun busnes a dod yn fenter gymdeithasol • Cyfeirio at fentoriaid busnes • Cwestiynau cyffredin a chysylltiadau • Astudiaethau achos - o Gymru a thu hwnt
2	<p>Bod Llywodraeth Cymru i annog a chefnogi tirlfeddianwyr cyhoeddus a phreifat i ryddhau tir ar gael ar gyfer gweithgareddau tyfu bwyd yn y gymuned.</p>	<p>Cwestiwn 5: Pa enghreifftiau o arferion da sy'n bod yn y maes hwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu arnynt i helpu i ryddhau tir at ddibenion tyfu bwyd yn y gymuned?</p> <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli cryn dipyn o dir, a chaiff geisiadau rheolaidd gan grwpiau cymunedol i ymgymryd â thyfu bwyd - yn enwedig ar Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru - ac rydym yn awyddus i gefnogi hyn lle bynnag y bo'n bosibl. Daw ceisiadau i law drwy ein cynllun Coetiroedd a Chi. Mae Coetiroedd a Chi wedi'i gynllunio i reoli a hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd i Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru (gan gyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru), tra'n sicrhau lefelau uchel o ddiogelwch i'r cyhoedd mewn coetiroedd gweithredol. Mae'r cynllun yn agored i grwpiau, mentrau cymdeithasol ac unigolion a gellir gwneud cynigion unrhyw bryd. Defnyddir y coetiroedd ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau o bob math, arolygon, hyfforddiant a mentrau, iechyd a lles, rhaglenni celfyddydol ac adfywio cymunedol. Bwriedir i'r dull hwn gael ei ymestyn dros y flwyddyn nesaf i gynnwys yr holl dir y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn berchen arno ac yn ei reoli. Gellid defnyddio'r model a'i addasu gan bob rheolwr tir cyhoeddus i hwyluso amrywiaeth o weithgareddau ac i reoli risg - yn cynnwys Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i daliadau tir dros ben (manyllion ar gronfa ddata EPIMS).</p> <p>Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol (FCFCG) a'i fenter Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (CLAS). Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wrthi'n cael ei ddatblygu i roi'r bartneriaeth ar y trywydd cywir. Mae'r Ffederasiwn a CLAS yn cynnig cymorth gyda materion fel asesu safleoedd, opsiynau o ran cyfansoddiad grwpiau, cynllunio a dylunio prosiectau, a chyfeirio. Mae ymgeiswyr <i>Coetiroedd a Chi</i> llwyddiannus yn dod</p>

		<p>yn rhan o Denantiaeth Rhandir - prydlesi tymor sefydlog sy'n rhoi defnydd dethol o ardaloedd penodol.</p> <p>Datblygwyd meini prawf ar gyfer dewis safleoedd a'u haddaswydd gyda'r Ffederasiwn a CLAS. Ceir dwy denantiaeth rhandir ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y de ar hyn o bryd, ac mae safleoedd pellach yn cael eu harchwilio a'u datblygu. Mae posibilrwydd mawr y gellir datblygu mwy, a bwriedir cynnal ymarfer cwmpasu yn y gogledd.</p> <p>Mae nifer o gynlluniau llwyddiannus yn cynnig astudiaethau achos defnyddiol a gallent lywio prosesau datblygu - er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gardd Farchnad Caerau a Maesteg • Prosiect Bwydgarwyr Cymunedol • Gwaith Cynefin yng Nghasnewydd i sefydlu perllannau cymunedol ar dir cyhoeddus nas defnyddir ddigon mewn ardaloedd trefol • Datblygu rhandiroedd ar ffermydd cymunedol yn y gogledd - e.e. Mae Felin Uchaf, Rhoshirwaun, Pwllheli: www.felinuchaf.org wedi datblygu gardd gymunedol fiodynamig lle maent yn gwerthu llysiau; Moel y Ci, Tregarth, Bangor : www.moelyci.org - fferm gymunedol • Brighton and Hove Allotment Federation - ardal fawr o randiroedd a gerddi cymunedol sy'n cynnwys menter a marchnata: http://www.brighton-hove.gov.uk/content/leisure-and-libraries/parks-and-green-spaces/allotments • Leeds - http://www.leeds.gov.uk/leisure/pages/allotments.aspx - ceir diwylliant hirsefydlog o randiroedd a thyfu cymunedol yn Leeds
3	<p>Bod Llywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o ymdrin â rhwystrau i ffermwyr ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd neu dyfu bwyd yn y gymuned.</p>	<p>Cwestiwn 6: Beth yw'r prif ddulliau y gallai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i gefnogi ffermwyr i ryddhau tir?</p> <p>Bydd angen datblygu unrhyw system gymorth a gynlluniwyd i annog ffermwyr i ryddhau tir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned yng nghyd-destun y bwriad i gyflwyno taliadau uniongyrchol ar sail ardal, gofynion y system trawsgydymffurfio a rheoliadau eraill yn ogystal ag argaeledd amrywiaeth o gynlluniau rheoli tir a gwasanaethau cynghori o dan y Cynllun Datblygu Gwledig.</p> <p>Mae llawer o ffermwyr yn debygol o fod yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o golli mynediad i gynlluniau</p>

	<p>taliadau uniongyrchol a/neu'r Cynllun Datblygu Gwledig fel Glastir os byddant yn rhyddhau tir i dyfu bwyd yn y gymuned. Mae hyn yn rhannol am ei bod yn bosibl na fydd gweithgarwch o'r fath yn gydnaws â rhwymedigaethau traws gydymffurfio a'r amodau a geir o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol, ond hefyd oherwydd yr anawsterau (canfyddedig ai peidio) sy'n debygol o fod yn rhan o'r broses o sefydlu pwy sy'n rheoli'r tir a phwy sy'n gyfrifol am fodloni gofynion unrhyw fesurau cymorth amaethyddol sy'n berthnasol i'r tir dan sylw.</p> <p>Byddai'n symlach defnyddio darpariaethau'r Cynllun Datblygu Gwledig i annog mwy o ffermwyr i werthu neu rentu eu tir i sefydliadau cymunedol - gyda'r elw o'r cyfryw drefniadau yn eu digolledu am unrhyw ostyngiad mewn cymorth amaethyddol/taliadau amaeth-amgylcheddol.</p> <p>Yn benodol, gellid defnyddio dulliau Cynllun Datblygu Gwledig fel Cyswllt Ffermio i gyfeirio at rôl sefydliadau fel y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (CLAS) i hwyluso'r broses o sefydlu safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned. Gellid defnyddio Cyswllt Ffermio hefyd i roi cyngor arbenigol unigol i ffermwyr yn cynnwys rhoi cymorth cyfreithiol a darparu contractau enghreifftiol. Gallai cyflwyno'r CLAS yn yr amrywiaeth o fesurau cymorth a ddarperir o dan Cyswllt Ffermio helpu i gyflymu'r broses o ddod i gytundeb rhwng grwpiau cymunedol a ffermwyr, yn bennaf drwy dynnu sylw at enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus a symleiddio'r holl broses.</p> <p>Mewn perthynas â'r broses o ddarparu tir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned o dan brydlesi/trwyddedau, bydd yn bwysig sicrhau na fydd unrhyw gam i gynyddu lefel y diogelwch cyfreithiol sydd ar gael i ddeiliaid rhandiroedd/mentrau cymunedol yn arwain at ganlyniadau gwrthnysig (e.e. drwy wneud trefeddiannwyr yn llai parod i ryddhau tir addas ar sail gymharol fyrdymor). Yn y cyd-destun hwn, mae angen sicrhau bod y math o gyngor ac arweiniad sydd ar gael yn ystod y broses o gyd-drafod contract yn cael ei gyflwyno mewn dull sy'n sicrhau bod dwy ochr unrhyw gytundeb yn llwyr ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau gan arwain at gyn lleied o anghydfodau â phosibl o anghydfodau yn y dyfodol.</p> <p>Yn hytrach na systemau yn seiliedig ar rentu tir am gyfnodau penodol, gallai fod yn bosibl defnyddio elfennau eraill o'r Cynllun Datblygu Gwledig, fel y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, er mwyn cefnogi'r grwpiau cymunedol hynny sydd â diddordeb mewn prynu ardaloedd addas o dir gan ffermwyr. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf a dylai fod yn ofynnol i bob cais am gymorth ddangos cysylltiadau penodol â Strategaethau Datblygu Lleol a themâu trawsbynciol y Cynllun</p>
--	--

		Datblygu Gwledig newydd; gan helpu i gefnogi dulliau rheoli amgylcheddol cadarn ynghyd â chadwyni cyflenwi lleol, cyflogaeth, datblygu sgiliau, cydraddoldeb ac amrywiaeth.
4	Bod canllawiau cynhwysfawr ar godi strwythurau dros dro, eu cynnal a'u cadw, i gael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer meddianwyr lleiniau ar safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned cofrestredig.	<p>Cwestiwn 7: A ydych chi o'r farn y byddai darparu canllawiau ar y mater hwn yn helpu i gynnig yr eglurder sydd ei angen ar ddeiliaid lleiniau?</p> <p>Ydyn - mae'n hanfodol cael eglurder ar <i>bob</i> mater cynllunio mewn perthynas â thyfu bwyd yn y gymuned.</p> <p>Cwestiwn 8: (Os atebwyd 'ydyn' i Gwestiwn 7) Beth ddylid ei ystyried fel rhan o gwmpas y canllawiau hyn o ran y math o strwythurau ac amodau rheoli tir?</p> <p>Dylid gwneud darpariaeth i gynnwys lleoedd dysgu a gweithio yn y gymuned/pacio cynnyrch wrth ymyl y tai gwydr a'r siediau traddodiadol e.e. iyrtau, geogromennau, gasebos, pergolâu.</p>
5	Ymestyn y diffiniad o randiroedd i gynnwys gerddi cymunedol gydag ethos mwy cymunedol lle gellir marchnata bwyd a'i dyfu er budd cyffredinol yn ogystal ag er budd yr unigolyn.	<p>Cwestiwn 9: Beth ddylid ei gynnwys mewn diffiniad diwygiedig o randiroedd a garddio yn y gymuned?</p> <p>Dylai diffiniad diwygiedig o randiroedd a garddio cymunedol fod yn ddigon hyblyg i gwmpasu'r amrywiaeth eang o fodelau sy'n bodoli ar hyn o bryd, er mwyn osgoi hepgor opsiynau ar gyfer tyfu er budd y gymuned yn y dyfodol. Dylai hefyd gynnwys yr hawl i bobl sy'n tyfu bwyd yn y gymuned farchnata a gwerthu bwyd dros ben yn unigol ac fel rhan o fenter gymdeithasol.</p>
6	Caniatáu i awdurdodau lleol ddirprwyo'r gwaith o gyflawni eu dyletswyddau a gwasanaethau mewn perthynas â rhandiroedd a thyfu yn y gymuned i gorff yn y trydydd sector.	<p>Cwestiwn 10: Beth yw'r manteision a'r anfanteision o gynnwys darpariaethau mewn deddfwriaeth sy'n caniatáu i randiroedd a thyfu yn y gymuned gael eu dirprwyo oddi wrth awdurdodau lleol i gorff y trydydd sector?</p> <p>Manteision:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyblygrwydd opsiynau rheoli

		<ul style="list-style-type: none"> • gall sefydliadau arbenigol yn y trydydd sector roi cymorth clir a ffocws ar gyfer y ddarpariaeth • amrywiaeth ehangach o ffynonellau ariannu / cronfeydd datblygu ar gael nag o'r blaen • efallai y bydd grwpiau cymunedol yn barotach i ymgysylltu â chorff annibynnol yn y trydydd sector <p>Fodd bynnag - mae angen cyfranogiad yr awdurdod lleol a gwaith partneriaeth o hyd. Byddai swyddogion ALL arbenigol, penodol, sy'n cymryd rhan weithredol, yn hanfodol o hyd.</p> <p>Anfanteision:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dim llawer o gyllid diogel, hirdymor ar gael i'r trydydd sector - risg y bydd cynlluniau yn methu yn y tymor canolig i'r hirdymor. • llai o ymgysylltu ag awdurdodau lleol
7	<p>Sefydlu map a chofrestr o safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned yng Nghymru, a'u hadolygu'n rheolaidd, at safon gyson.</p>	<p>Cwestiwn 11: Sut y dylid llunio cofrestr o'r fath a'i diweddarau? Byddai diddordeb gennym glywed yn ein hymateb a allai cofrestr o'r fath fod yn rhan o restr tir neu eiddo presennol, pa gorff y dylai fod gofyn iddo ei gynhyrchu, a phwy ddylai gael mynediad i'r gofrestr ac at ba ddiben.</p> <p>Er bod hyn yn gynnig ardderchog a fyddai'n helpu i fonitro cynllun tyfu bwyd yn y gymuned i Gymru ac yn gweithredu fel adnodd datblygu, byddai'n rhaid sefydlu adnoddau rheoli hirdymor, prosesau cynnal a chadw dibynadwy, sicrwydd ansawdd a materion mynediad data cyhoeddus ar y cychwyn. Yn amodol ar ystyriaethau diogelu data, dylid sicrhau bod cofrestr ar-lein ar gael i'r cyhoedd. A yw cronfa ddata EPIMS Llywodraeth Cymru ei hun yn ddechreubwynt defnyddiol? Mae'r gwaith hwn yn cysylltu'r gwaith mapio safleoedd a pherchenogaeth tir posibl (gweler yr ymateb i C2). Os caiff y gofrestr ei rheoli gan drydydd parti, bydd angen sicrhau a diogelu materion cynnal a chadw a mynediad hirdymor os bydd y corff yn cau neu'n newid ei gylch gwaith.</p> <p>Cwestiwn 12: Fel rhan o hyn, a ddylai trydydd parti gael yr hawl i wneud cais i gofrestru neu ddadgofrestru safle, a sut y dylai hynny weithio? Byddai diddordeb mawr gennym glywed yn arbennig eich barn ar sut y gallai apelio a chymrodeddu weithio yn hyn o beth.</p> <p>Dylai eglurder, bod yn agored, bod yn dryloyw ac amseroldeb fod yn egwyddorion allweddol unrhyw system a sefydlir - gyda phrosesau ymgynghori a diogelu yn greiddiol iddi.</p>

		<p>Cwestiwn 13: Yn unol â'r darpariaethau deddfwriaethol presennol, dim ond os ydynt yn bwriadu cael gwared ar safle rhandir statudol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Fel arfer, cyn cael cydsyniad Gweinidogion Cymru, byddai'n ofynnol darparu safle arall o werth tebyg o ran amwynder yn lle'r safle rhandir a gaiff ei waredu. A ddylid ymestyn y dull hwn i bob safle cofrestredig?</p> <p>Dylid</p>
8	Sefydlu rhestr aros ar gyfer safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned cofrestredig, a'i chynnal, at safon gyson.	<p>Cwestiwn 14: Sut y dylid llunio rhestri aros a'u diweddarau? Byddai diddordeb gennym glywed yn eich ymateb pa gorff y dylai fod yn ofynnol iddo gynhyrchu rhestr o'r fath yn eich barn chi.</p> <p>Yr arweinydd lleol dynodedig ddylai fod yn gyfrifol am hyn - gweler yr ymateb i C2 uchod.</p>
9	Pan fo tystiolaeth glir nad yw'r galw am randiroedd neu safleoedd tyfu yn y gymuned yn cael ei fodloni, dylid cyhoeddi cynllun yn amlinellu sut y bydd y ddarpariaeth honno yn cael ei chynyddu i fodloni'r galw hwnnw.	<p>Cwestiwn 15: Beth ddylai fod yn sbardun ar gyfer datblygu strategaeth tyfu bwyd yn y gymuned, ac a ydych chi'n cytuno mai'r awdurdod lleol ddylai arwain ar ei llunio?</p> <p>Mae'r gofyniad ar gyfer cynlluniau datblygu strategol yn un da. Fodd bynnag, o ran beth sy'n ysgogi'r rhain, dim ond y galw ymhlith pobl sydd eisoes meddu ar wybodaeth dda a chymhelliant ac sy'n ymwybodol o gyfleoedd tyfu yn y gymuned a adlewyrchir gan y rhestrau aros. Mae risg na chaiff ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach, fel data iechyd a lles lleol eu hystyried. Rydym yn awgrymu bod angen dull rhagweithiol, hyrwyddol (gan ofyn a oes gan bobl ddiddordeb mewn tyfu, cynnig diwrnodau 'blasu', cynnwys ysgolion a sefydliadau cymunedol sy'n bodoli eisoes ac ati) i archwilio'r broses o ddatblygu darpariaeth tyfu yn y gymuned. Lle na cheir hanes lleol o randiroedd, weithiau ni fydd pobl yn ymwybodol o'r hyn sy'n bosibl.</p> <p>Dylai strategaethau lleol ystyried cynnydd yn y galw yn y dyfodol a dylid cyfeirio atynt mewn cynlluniau integredig sengl a chynlluniau rheoli cyfoeth naturiol. .</p>
10	Sefydlu hawl i awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a	<p>Cwestiwn 16: O dan ba amgylchiadau, a gyda pha fesurau diogelu, ddylai awdurdodau lleol a chymunedau allu cofrestru a defnyddio tir nad ydynt yn berchen arno nac yn ei brydlesu ar gyfer tyfu yn y gymuned?</p>

	<p>grwpiau cymunedol sefydledig gofrestru a defnyddio (dros dro) dir cyhoeddus nas defnyddir neu a danddefnyddir, neu dir lle na ellir sefydlu pwy yw'r perchennog, at ddibenion tyfu bwyd yn y gymuned.</p>	<p>Dylid ceisio cyngor gan y Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol ar yr isafswm cyfnod prydles sy'n ofynnol ar gyfer cynllun tyfu hyfyw. Mae lleiniau'n cymryd amser i'w paratoi a'u sefydlu, ac mae angen i fuddsoddiadau (o ran amser ac arian) fod yn gymesur.</p> <p>Lle y caiff safle a ddatblygwyd yn flaenorol ei gynnig ar gyfer tyfu yn y gymuned, dylid cynnal arolwg o fioamrywiaeth os yw'n bosibl y gallai'r safle gynnwys cynefinoedd brithwaith agored neu os yw'r safle yn debygol o gynnwys un o gynefinoedd â blaenoriaeth eraill y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Gall rhai safleoedd yr ymddengys eu bod yn laswelltir amwynder wedi'i dorri'n fyr heb unrhyw bwysigrwydd o ran bioamrywiaeth gynnwys planhigion o bwys mawr i beillwyr, a allai fod wedi'i atal yn hytrach na'i ddileu drwy dorri gwair yn rheolaidd. Er mwyn canfod a yw hyn yn wir, ni ddylid torri'r gwair ar y safle rhwng dechrau mis Mawrth a diwedd mis Medi, a dylai unigolyn neu sefydliad cymwys gadw cofnod o'r planhigion sy'n blodeuo yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar ôl hyn, os bydd yr unigolyn neu'r sefydliad cymwys o'r farn bod gan y safle werth bioamrywiaeth isel, yna ni ddylid gwrthwynebu ei ddefnyddio i dyfu yn y gymuned.</p>
11	<p>Caniatáu i ardaloedd o dir a glustnodwyd at ddibenion eraill gael eu defnyddio ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned lle nad yw'n amharu nac yn effeithio ar y diben dynodedig nac ar unrhyw werth arall o ran amwynder.</p>	<p>Cwestiwn 17: I ba fath o ardaloedd y dylid ymestyn y cynnig hwn, a pha gamau diogelu y byddai eu hangen?</p> <p>Dylai pob opsiwn fod ar gael (yn amodol ar y materion bioamrywiaeth a nodir uchod) a'i asesu mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd presennol, nad yw'n amlwg ar unwaith o bosibl. Dylai ymgynghoriad cymunedol lleol ynghylch cynigion fod yn rhan hanfodol o'r broses, er mwyn sicrhau bod pobl (yn cynnwys pobl ifanc sy'n aml yn defnyddio mannau glas yn anffurfiol) yn cael eu cynnwys, eu hysbysu ac y gallant roi sylwadau a chymryd rhan.</p> <p>Cwestiwn 18: Sut y dylid mynd ati i asesu pa mor addas yw'r tir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned, a pha faterion y dylid eu hystyried?</p> <p>Cyn cymeradwyo unrhyw leoliad ar gyfer rhandiroedd a gerddi cymunedol, dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r defnydd blaenorol a lleoliad y tir - yn arbennig mewn perthynas â halogi. Dylid cynnal ymgynghoriad a thrafodaeth â'r Awdurdod Lleol er mwyn penderfynu a yw'r lleoliad yn addas ar gyfer y gweithgareddau hamdden a argymhellir, tyfu a bwyta bwyd. Dylid datblygu methodoleg i asesu p'un a gaiff pob safle neu</p>

		<p>safleoedd penodol eu hystyried yn fanwl. Gallai hyn ddechrau gyda chwiliadau hanes safleoedd syml y gellid eu cynnal fel rhan o'r dull gweithredu hwn ar gyfer hanes safleoedd ac ati, ynghyd ag asesiad o halogyddion posibl ar/ger lleiniau ymyl ffordd ac yn agos at ffynonellau neu grynodiadau cefndirol eraill.</p> <p>Mae angen nodi unrhyw rywogaethau ymledol a chytuno ar fesurau rheoli. .</p> <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno ar y meini prawf canlynol gyda'r CLAS ar gyfer safleoedd ar dir y mae'n berchen arno neu'n ei reoli - yn ddelfrydol, mae angen i'r canlynol fod yn berthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eu bod yn agos at gymunedau ac yn ddelfrydol o fewn pellter cerdded o 10 munud atynt neu ar lwybrau cludiant cyhoeddus • Mynediad rhwydd iddynt a'u bod mor wastad â phosibl • Mynediad tua'r de heb fod yn rhy agored i brifwyntoedd • Digon o leoedd parcio er mwyn osgoi anghyfleustra i gymdogion a rhwystrau ffyrdd (gan gydnabod y bydd rhai pobl yn gyrru i unrhyw safle) • Mynediad i ddŵr • Dim effaith andwyol ar gynlluniau rheoli tir ehangach a dim llawer o gyfyngiadau os o gwbl (e.e. anaml y bydd Safleoedd Coetiroedd Hynafol a Blannwyd yn addas) • Heb gael eu dynodi fel tir datblygu posibl neu heb unrhyw gyfyngiadau o ran deiliadaeth • Cynnwys gwybodaeth lawn am unrhyw faterion halogi posibl. <p>Cwestiwn 19: A ydych chi'n cytuno â'r cynigion uchod naill ai fel un pecyn cyfunol neu'n rhannol? Cyfunol.</p> <p>Cwestiwn 20: Beth yw effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y cynigion (ar y cyd neu'n rhannol)? Wedi'i ateb uchod.</p> <p>Cwestiwn 21: Ym mha ffyrdd eraill, yn hytrach na'r cynigion a geir uchod, y gellid gwella'r ddarpariaeth tir ar gyfer rhandiroedd a thyfu yn y gymuned?</p>
--	--	---

		Gweler ein hymateb i C5 - byddem yn argymhell y dylai pob corff cyhoeddus sy'n berchen ar dir fabwysiadu cynlluniau ffurfiol i annog a hwyluso mynediad i dir - at bob diben budd i'r gymuned.
	Unrhyw sylwadau eraill	Rydym yn croesawu'r cynigion hyn yn fawr, a fyddai'n arwain at amrywiaeth eang o fuddiannau - iechyd a lles, cydlyniant a balchder cymunedol, datblygu addysg a sgiliau, menter gymdeithasol. Mae tyfu yn y gymuned yn weithgaredd y gall pobl o bob cefndir, oedran a gallu cymryd rhan ynddo - lle bynnag y maent yn byw.

Atodiad 1

Bwyd yn y Gymuned a Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae galw cynyddol am safleoedd rhandiroedd ledled y DU. Fel rheolwr Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cael mwy o geisiadau gan gymunedau sydd am ddefnyddio safleoedd ar ymylon coedwigoedd i dyfu bwyd. Rydym yn awyddus i gael cynigion ar gyfer cynlluniau o'r fath drwy ein rhaglen *Coetiroedd a Chi* - a gaiff ei hehangu maes o law i'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol rydym yn berchen arnynt ac yn eu rheoli.

Er mwyn sicrhau bod cynigion bwyd cymunedol yn cael y cyfle gorau posibl i lwyddo a bod cymorth datblygu arbenigol ar gael, mae'n bleser gan Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gyda'r Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol (FCFCG) a'i fenter Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (CLAS). Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wrthi'n cael ei ddatblygu i roi'r bartneriaeth ar y trywydd cywir. Mae'r Ffederasiwn a CLAS yn cynnig cymorth gyda materion fel asesu safleoedd, opsiynau o ran cyfansoddiad grwpiau, cynllunio a dylunio prosiectau, a chyfeirio. Mae ymgeiswyr *Coetiroedd a Chi* llwyddiannus yn dod yn rhan o Denantiaeth Rhandir - prydles i ymgorffwrdd sy'n rhoi defnydd dethol o ardaloedd penodol.

Datblygwyd meini prawf ar gyfer dewis safleoedd a'u haddasrwydd gyda'r Ffederasiwn a CLAS. Ceir dwy denantiaeth rhandir ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y de ar hyn o bryd, ac mae safleoedd pellach yn

cael eu harchwilio a'u datblygu. Mae posibilrwydd mawr y gellir datblygu mwy, a bwriedir cynnal ymarfer cwmpasu yn y gogledd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cydweithio'n agos â Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt y DU er mwyn sicrhau y rhoddir cyngor ac arweiniad i randdeiliaid yng Nghymru ac i gefnogi Cynllun Gweithredu Peillio Llywodraeth Cymru.